A465 Blaenau'r Cymoedd Deuoli
Adran 5 + 6: Dowlais Top - Hirwaun

A465 Heads of the Valleys
Section 5 + 6: Dowlais Top - Hirwaun

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# A465 Blaenau'r Cymoedd Adrannau 5 a 6: Dowlais Top i Hirwaun

Taflen Grynhoi Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr (Mawrth 2018)

# A465 Heads of the Valleys Sections 5 and 6: Dowlais Top to Hirwaun

Objectors' Suggested Alternatives Summary Leaflet (March 2018)



## Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Orchmynion Drafft ar gyfer Cynllun A465 Blaenau'r Cymoedd Adrannau 5 a 6: Dowlais Top i Hirwaun ym mis Gorffennaf 2017 ("y Cynllun Cyhoeddedig").**

**Derbyniwyd gwrthwynebiadau a byddant yn cael eu clywed mewn Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus sydd i dod i ddechrau ar 24 Ebrill 2018 yn:**

**Canolfan Busnes yr Orbit**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1DL**

**Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn dewisiadau amgen a awgrymwyd i'r Cynllun Cyhoeddedig.**

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn hybu nac yn cefnogi'r dewisiadau amgen a awgrymwyd hyn, mae'n rhaid iddi eu hystyried er mwyn i'r Arolygydd sy'n cynnal yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus allu adrodd ar eu manteision perthynol yn ei adroddiad i Weinidogion Cymru.

Ni chaiff yr Arolygydd argymell bod dewis amgen a awgrymwyd yn cael ei fabwysiadu, ond gallai gynghori Gweinidogion Cymru bod gwerth mewn gwneud mwy o ymchwil i un neu fwy ohonynt. Mewn achos o'r fath, a phe byddai ymchwil o'r fath yn cael ei wneud ac yn dod i'r casgliad y dylid mabwysiadu dewis amgen, byddai angen iddo wedyn fod yn destun gorchmynion statudol newydd a fyddai ei hunan yn agored i wrthwynebiad ffurfiol.

Gallai un neu fwy o'r dewisiadau amgen a awgrymwyd, pe byddent yn cael eu mabwysiadu, effeithio ar eich eiddo a/neu eich buddiant chi. Mae'r Daflen Grynhoi Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr yn dangos llwybr bras y dewisiadau amgen a awgrymwyd. Darperir gwybodaeth fanylach ac arfarniad o bob dewis amgen a awgrymwyd mewn Adroddiad ar wahân ar y Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr.

## Objectors' Suggested Alternatives

**The Welsh Government published Draft Orders for the A465 Heads of the Valleys Sections 5 & 6: Dowlais Top to Hirwaun Scheme in July 2017 ("the Published Scheme").**

**Objections have been received and will be heard at a Public Local Inquiry due to commence on 24th April 2018 at:**

**The Orbit Business Centre**
**Rhydycar Business Park**
**Merthyr Tydfil**
**CF48 1DL**

**Suggested alternatives to the Published Scheme have been received by the Welsh Government.**

While the Welsh Government is not promoting or supporting these suggested alternatives, it is obliged to consider them so that the Inspector conducting the Public Local Inquiry can report on their relative merits in their report to the Welsh Ministers.

The Inspector cannot recommend that a suggested alternative be adopted, but could advise the Welsh Ministers that one or more of them warrants further investigation. In such an event, and if such investigations were undertaken that conclude an alternative should be adopted, it would then need to be the subject of new statutory orders which themselves would be open to formal objection.

One or more of the suggested alternatives might, if adopted, affect your property and/ or interest. This Objectors' Suggested Alternatives Summary Leaflet shows the approximate routing of the suggested alternatives. More detailed information and appraisal of each suggested alternative is provided within a separate Objectors' Suggested Alternatives Report.

Gellir cael copïau o'r adroddiad llawn trwy gysylltu â **Changen Orchmynion** Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ar gefn y daflen hon, dros y ffôn ar *0845 600 2664* neu drwy e-bost at *pi@personaassociates.co.uk*

Gellir gweld copïau caled hefyd yn y cyfeiriad a nodir ar gefn y daflen hon.

Gellir cael copïau electronig o'r adroddiad llawn drwy ymweld â gwefan yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus- *http://a465-dualling-welsh.persona-pi.com/*

Copies of the full report can be obtained by contacting the Welsh Government **Orders Branch** at the address on the reverse of this leaflet, by telephone on *0845 600 2664* or email at *pi@personaassociates.co.uk*

Hard copies can also be viewed at the address' stated on the reverse of this leaflet.

Electronic copies of the full report can be obtained by visiting the Public Local Inquiry websites- *http://a465-dualling.persona-pi.com/*

## Arfarniad o'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr

**Yn yr adroddiad llawn, mae'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr wedi eu harfarnu o'u cymharu â meini prawf Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn WelTAG (Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru).**

**Mae'r dull hwn a arweinir gan amcanion yn ystyried gallu pob dewis i gyflawni Amcanion Penodol y Cynllun, ac mae'n ei arfarnu o'i gymharu â thri maes effaith Llywodraeth Cymru sef yr Economi, yr Amgylchedd a Chymdeithasol, yn ogystal ag ystyried pa mor dderbyniol ydyw i'r cyhoedd ac i rhanddeiliaid, dichonoldeb technegol a gweithredol, fforddiadwyedd ariannol a'r gallu i'w gyflawni a'r risgiau.**

## Appraisal of the Objectors' Suggested Alternatives

**Within the full report, the Objectors' Suggested Alternatives have been appraised against the Welsh Government's criteria as set out in WelTAG (Welsh Transport Appraisal Guidance).**

**This objective led approach considers the ability of each option to meet the Scheme Specific Objectives, and appraises it against the Welsh Government's three impact areas of Economy, Environment and Social, as well as considering public and stakeholder acceptability, technical and operational feasibility, financial affordability and deliverability and risks.**

## Rhoi sylwadau ar y dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu g efnogi unrhyw un o'r Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr wneud hynny cyn gynted â phosibl drwy ysgrifennu at **Gangen Gorchmynion** Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad isod.

**Y Gangen Gorchmynion**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Bydd yr holl sylwadau a dderbynir yn cael eu trosglwyddo i'r Arolygydd i'w hystyried.

Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r Arolygydd ddatgelu sylwadau ac enwau'r bobl a'u nododd yn yr Ymchwiliad, oni bai bod rhesymau arbennig i'r gwrthwyneb. Cedwir copïau o'r holl ohebiaeth fel arfer yn llyfrgell yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus ac mae'n agored i'r cyhoedd eu hymchwilio.


## Commenting on the Objectors' Suggested Alternatives

Anyone wishing to object to or support any of the Objectors' Suggested Alternatives should do so as soon as possible by writing to the Welsh Government **Orders Branch** at the address below.

**Orders Branch**
Transport
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

All comments received will be passed to the Inspector for consideration.

The Inspector may be required to disclose the comments and the identity of the authors at the Inquiry, unless there are special reasons to the contrary. A copy of all correspondence is normally kept in the Public Local Inquiry library and is open to public inspection.




Y Cynllun Cyhoeddedig wrth Gyffordd Croesbychan yn dangos y newidiadau Ychwanegol a gynigir

Published Scheme at Croesbychan Junction with proposed Supplementary changes

## Y Cynllun a Gynigir

**Dangosir y cynllun a gynigir wrth Gyffordd Croesbychan uchod.**


Mae'r gyffordd ar wahanol lefelau gyda mynediad o briffordd yr A465 i Ffordd Abertawe a'r ffordd i Amlosgfa Llwydcoed drwy danbont. Mae'r cynllun a gynigir hefyd yn darparu ffyrdd ymuno tua'r dwyrain a'r gorllewin i Briffordd yr A465 drwy system gylchu dymbel.

## The Proposed Scheme

**The proposed scheme at Croesbychan Junction is shown above.**

The junction arrangement provides grade separation with access from the A465 Mainline to Swansea Road and the road to Llwydcoed Crematorium via an underbridge. The proposed scheme also provides east and westbound slip roads onto the A465 Mainline via a dumbbell gyratory system.

**Nid yw Llywodraeth Cymru yn hybu Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr**
**The Welsh Government is not promoting the Objectors' Suggested Alternatives**




Dewis Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr 1 – Cylchfan Hirgrwn

Objectors' Suggested Alternative 1 – Oval Roundabout

## Dewis Amgen 1

**Cynigiwyd y dewis amgen hwn gan 2 wrthwynebydd.**

**Mae'r dewis amgen hwn yn rhoi un gylchfan hirgrwn yng Nghroesbychan yn hytrach na'r drefn cyffordd dymbel.**

Mae'r dewis amgen yn gyffordd ar wahanol lefelau ac yn darparu mynediad tua'r dwyrain a'r gorllewin drwy ffordd ymuno. Caiff y briffordd ei chario dros y system gylchu ar ddwy bont ar wahân sy'n 35.5m o hyd. Yn debyg i'r cynllun cyhoeddedig mae ffordd gyswllt yn cysylltu'r system gylchu newydd i'r ffordd i Amlosgfa Llwydcoed.


## Alternative 1

**This alternative was proposed by 2 objectors**

**This alternative replaces the dumbbell junction configuration at Croesbychan with a single oval roundabout.**

The alternative is grade separated and provides east and westbound slip road provision. The mainline is carried over the gyratory via two separate 35.5m span bridge decks. Similar to the published scheme a link road connects the new gyratory to the road to Llwydcoed Crematorium.

**Nid yw Llywodraeth Cymru yn hybu Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr**
**The Welsh Government is not promoting the Objectors' Suggested Alternatives**




Dewis Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebydd 2 – Dwy Gylchfan

Objectors' Suggested Alternative 2 – Two Roundabouts

## Dewis Amgen 2

**Cynigiwyd y dewis amgen hwn gan 2 wrthwynebydd ac mae'n disodli'r drefn cyffordd dymbel yng Nghroesbychan drwy symud y briffordd i'r de-ddwyrain a darparu dwy gylchfan, un bob ochr i'r A465. Mae'r dewis amgen yn gyffordd ar wahanol lefelau ac yn darparu mynediad tua'r dwyrain a'r gorllewin drwy ffyrdd ymuno.**


Byddai pont dros briffordd yr A465 yn cysylltu'r ffordd gyswllt rhwng y ddwy gylchfan.

## Alternative 2

**This alternative was proposed by 2 objectors and replaces the dumbbell junction configuration at Croesbychan by shifting the mainline to the South East and providing two roundabouts, one either side of the A465. The alternative is grade separated, providing east and westbound slip provision.**

A bridge over the A465 mainline would connect the link road between the two roundabouts.

**Nid yw Llywodraeth Cymru yn hybu Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr**
**The Welsh Government is not promoting the Objectors' Suggested Alternatives**




Dewis Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr 3 – Un Gylchfan a Ffyrdd Ymuno yn wynebu'r dwyrain yn unig

Objectors' Suggested Alternative 3 – One Roundabout and East facing Slip Roads only

## Dewis Amgen 3

**Cynigiwyd y dewis amgen hwn gan 1 gwrthwynebydd.**

**Mae hwn yn cynnwys disodli'r drefn cyffordd dymbel yng Nghroesbychan drwy ddarparu un gylchfan i'r e-ddwyrain o'r briffordd a chysylltiadau i ffyrdd ymuno i Ferthyr Tudful ac oddi yno yn unig.**

Ni fyddai ffyrdd ymuno sy'n wynebu'r gorllewin ar y brif gerbytffordd yn cael eu cynnwys. Byddai pont yn cysylltu Ffordd Abertawe.

## Alternative 3

**This alternative was proposed by 1 objector.**

**This comprises the replacement of the dumbbell junction configuration at Croesbychan by providing a single roundabout South East of the mainline with connections to slip roads from and to Merthyr Tydfil only.**

West facing slip roads onto the mainline carriageway would not be included. A bridge would connect Swansea Road.

**Nid yw Llywodraeth Cymru yn hybu Dewisiadau Amgen a Awgrymwyd gan Wrthwynebwyr**
**The Welsh Government is not promoting the Objectors' Suggested Alternatives**

## Eich Safbwyntiau

Dylid anfon eich ymatebion i'r cyfeiriad canlynol:

**Y Gangen Gorchmynion**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## Your Views

Your responses should be sent to the following address:

**Orders Branch**
Transport
Welsh Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

## Rhagor o Wybodaeth

Gellir gweld copïau yn y lleoliadau a restrir isod a'u cael, yn rhad ac am ddim, drwy gysylltu â **Changen Gorchmynion** Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a nodir isod neu ar y ffôn yn *0845 600 2664*.

Gellir cael copïau electronig o'r adroddiad llawn drwy ymweld â gwefan yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus- *http://a465-dualling-welsh.persona-pi.com/*

- **Y Gangen Gorchmynion**, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Tonypandy, CF40 2XX
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, LD3 7HP
- Llyfrgell Hirwaun, Heol Uchel, Hirwaun, CF44 9SW
- Canolfan Gymunedol Cefn Coed, Old Drill Hall Road, Cefn Coed, Merthyr Tudful, CF48 2NA
- Llyfrgell Dowlais, Church Street, Dowlais, CF48 3HS

## Further Information

Copies can be viewed at the locations listed below and obtained, free of charge, by contacting the Welsh Government **Orders Branch** at the address given below or by telephone *0845 600 2664*.

Electronic copies of the full report can be obtained by visiting the Public Local Inquiry website- *http://a465-dualling.persona-pi.com/*

- Orders Branch, Transport, Welsh Government,Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
- Rhondda Cynon Taf County Borough Council, The Pavilions, Cambrian Industrial Park, Tonypandy, CF40 2XX
- Merthyr Tydfil County Borough Council, Civic Centre, Castle Street, Merthyr Tydfil, CF47 8AN
- Caerphilly County Borough Council, Penallta House, Tredomen Park, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG
- Brecon Beacons National Park Authority, Plas y Ffynnon, Cambrian Way, Brecon, LD3 7HP
- Hirwaun Library, High Street, Hirwaun, CF44 9SW
- Cefn Coed Community Centre, Old Drill Hall Road, Cefn Coed, Merthyr Tydfil, CF48 2NA
- Dowlais Library, Church Street, Dowlais, CF48 3HS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Feb 2018